British Broadcasting Corporation NBH 04 A, Broadcasting House, Portland Place, London W1A 1AA
Telephone 020 8743 8000

BBC

From the Director-General

Mawrth 8fed, 2017

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Bethan,

Y Darlun Mawr – Safbwyntiau Cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

Diolch am eich llythyr diweddar ac am gopi o adroddiad manwl y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru.

Yn fy llythyr dyddiedig Chwefror 21ain, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud i adolygu ein darpariaeth o raglenni a gwasanaethau yng Nghymru. Hefyd, nodais ein cynlluniau i gynyddu ein buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg ar gyfer Cymru o 50% dros y tair blynedd nesaf. Bydd yr £8.5 miliwn ychwanegol o gyllid newydd y flwyddyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn golygu rhaglenni newydd sylweddol i Gymru ar draws ystod eang o genres. Fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer Cymru, mae disgwyl i gyfanswm y buddsoddiad mewn gwasanaethau teledu Saesneg gyrraedd bron i £30 miliwn y flwyddyn erbyn 2019/20. Bydd y buddsoddiad hefyd yn rhoi hwb i wasanaethau newyddion yng Nghymru, gyda cynlluniau i roi mwy o sylw i faterion arbenigol ac ehangu'r gwasanaethau symudol ac ar-lein. Caiff manylion y cynlluniau hyn eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn y gwanwyn.

Ar gais y Pwyllgor, 'rwy hefyd yn amgáu gwybodaeth am y Gwasanaeth Newyddiadura ar Ddemocratiaeth Leol.

Rwy'n gwybod y bydd rhagor o gyfle i ni drafod y materion hyn yn ddiweddarach eleni.

Dymuniadau gorau,

Tony Hall
Cyfarwyddwr Cyffredinol

Y Gwasanaeth Newyddiadura ar Ddemocratiaeth Leol

Yn dilyn yr Adroddiad ar Ddarlledu gan Bwyllgor Cynulliad Cymru, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o fanylion ynghylch y Gwasanaeth Newyddiadura ar Ddemocratiaeth Leol (LDRS). Yn y papur briffio hwn, ceir crynodeb o'r LDRS ac ymateb i'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor.

Beth yw'r LDRS?

- Bydd yr LDRS yn recriwtio 150 o newyddiadurwyr newydd a fydd yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr newyddion lleol ledled y Deyrnas Unedig. Byddant yn trafod sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus lleol nad ydynt yn cael digon o sylw gan y farchnad.
- Bydd y BBC yn ariannu'r LDRS, ond ni fydd yn un o wasanaethau'r BBC ac ni fyddant yn ohebwyr y BBC.
- Bydd allbwn yr LDRS ar gael i ystod eang o sefydliadau newyddion (gan gynnwys y BBC) sy'n bodloni cyfres o feini prawf y cytunir arnynt.[1]

Beth yw'r rhesymeg dros yr LDRS?

- Mae lles cyhoeddus i gael sector newyddion lleol ffyniannus yn y DU. Mae mwy o ddatganoli a heriau economaidd i'r diwydiant newyddion lleol wedi arwain at lai o ohebu mewn rhai rhanbarthau, yn arbennig o ran rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus a democratiaeth leol
- Nid rôl y BBC yw cefnogi y sector newyddion lleol presennol yn ariannol. Yn hytrach, dros gyfnod y trafodaethau Siarter, datblygodd y BBC gynigion ar y cyd â'r diwydiant i wella'r ddarpariaeth newyddiaduraeth leol ar gyfer pob cynulleidfa ac i geisio lleihau'r bwlch democrataidd. Bydd gwella ansawdd darpariaeth newyddion lleol y DU a chynyddu'r trafodaethau ar faterion lleol nad oes digon o son amdanynt ar hyn o bryd yn sicrhau gwerth i ffi'r drwydded.

Pa gynnwys fydd yr LDRS yn ei gynhyrchu?

- Mae gan ohebwyr yr LDRS friff golygyddol penodol i roi sylw i haen uchaf yr awdurdodau lleol gan gynnwys cynghorau sir, awdurdodau unedol a bwrdeistrefi metropolitan. Lle mae hyn yn briodol ac wedi ei gytuno, mae'n bosibilrwydd y gall y gwasanaeth ohebu ar gyrff cyhoeddus eraill
- Bydd gofyn i ohebwyr gynhyrchu cynnwys amlgyfrwng, er y disgwyliad yw mai adroddiadau ar ffurf testun fydd y rhan fwyaf o'r allbwn.

Sut bydd yr LDRS yn gweithio yn ymarferol?

- Mae gan y BBC (yn dilyn ôl ymgynghoriad â'r diwydiant) ddosbarthiad drafft o139 o ohebwyr. Caiff 11 o'r swyddi eu cadw yn ôl er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau annisgwyl ar ddiwedd y broses ddyrannu
- Caiff y 139 gohebydd eu bwndelu i 54 o gytundebau rhanbarthol 2 flynedd, a chaiff darparwyr trydydd parti wneud cais amdanynt. Mae modd i unrhyw ddarparwr sy'n bodloni cyfres o feini prawf wneud cais
- Ar hyn o bryd, mae 11 gohebydd wedi eu dyrannu i Gymru, a phob un yn gyfrifol am 2 ardal awdurdod lleol.

---

[1] Mae'r meini prawf hyn yn sicrhau bod partneriaid wedi ymrwymo i ddarparu newyddiaduraeth leol, ond eu bod yn agored, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r sector papur newydd

Peirianwaith i adolygu'r gwasanaeth

- Bydd pob ardal neu wlad yn ffurfio grŵp defnyddwyr er mwyn rhoi adborth ar y gwasanaeth. Bydd yn cael ei gadeirio gan y BBC a bydd ganddo gynrychiolaeth o blith defnyddwyr a darparwyr ar draws y sector
- Bydd grŵp llywio yn cael ei ffurfio i gynorthwyo'r BBC gyda materion sy'n berthnasol i'r gwasanaeth yn gyfan
- Bydd holl gynigion y BBC i bartneriaethau newyddion lleol yn cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod termau'r bartneriaeth yn cael eu bodloni a bod yr LDRS yn cyflawni'r dibenion a fwriadwyd

Mae adroddiad y Pwyllgor yn mynegi pryder y gallai'r LDRS arwain yn anfwriadol at sefydliadau newyddion lleol yn lleihau eu darpariaeth eu hunain. Mae'n awgrymu math o wasanaeth 'gwifren' yn lle hynny.

- Amcan yr LDRS yw cyfrannu at newyddiaduraeth leol y Deyrnas Unedig. Nid bwriad y BBC yw defnyddio ffi'r drwydded i ariannu gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli o fewn y farchnad
- Mae'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r diwydiant i sicrhau bod y cynnig cyflawni ei rôl gyhoeddus, ei fod o fudd i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded a'i fod yn helpu i gynnal lluosogrwydd yn y farchnad cyfryngau lleol
- Mae prif feysydd y cynnig yn fodd i geisio atal sefydliadau newyddion lleol rhag lleihau eu darpariaeth:
  1. Pwrpas y gwasanaeth yw trafod 'materion nad ydynt yn cael digon o sylw' a llenwi bylchau yn y farchnad o ran gohebu. Bydd yn wasanaeth unigryw sy'n ychwanegu at adnoddau sydd eisoes yn bodoli, yn hytrach na'u disodli.
  2. Bydd yr LDRS yn trafod materion sy'n ymwneud â sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus lleol. Y prif nod yw newyddiaduraeth ar wasanaethau cyhoeddus sydd â llai o werth masnachol.
  3. Rhoddir briff golygyddol wedi'i ddiffinio'n amlwg a chlir i'r gohebwyr. Bydd angen i'r gohebwyr gadw o fewn cwmpas y briff hwnnw a pheidio ymgymryd ag unrhyw newyddiadura arall y gallai eu sefydliad letyol elwa ohono.
  4. Mae'r gwasanaeth wedi'i ddatblygu er budd pob darparwr newyddion lleol cymwys, ac nid er mwyn rhoi mantais i sefydliadau neu sectorau newyddion unigol. Er enghraifft, bydd yr holl ddarparwyr cymwys yn cael cyfle i wneud cais am gytundebau, a bydd cynnwys golygyddol yr LDRS yn cael ei ddosbarthu i'r holl ddefnyddwyr cymwys ar yr un amser.
  5. Bydd dulliau adolygu yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei amcanion. Bydd y BBC yn gwahodd adborth ac awgrymiadau gan y diwydiant ehangach ynglŷn â sut i wella'r gwasanaeth.
- Bydd ymgorffori newyddiadurwyr yr LDRS mewn sefydliadau newyddion lleol yn rhoi mwy o werth i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded. Mae'n rhoi hwb i luosogrwydd ac yn sicrhau bod y manteision yn cyrraedd ystod eang o sefydliadau newyddion lleol. Hefyd, mae'n ddull sy'n sicrhau cydweithio ac yn cefnogi ymrwymiad ehangach y BBC i fod yn bartner mwy agored.
- Ni fydd yr LDRS yn rhoi sylw i lysoedd, fel yr awgrymir yn adroddiad y Pwyllgor, oherwydd ystyrir hynny yn ddefnydd llai gwerthfawr o arian talwyr ffi'r drwydded. Caiff y gwaith hwn ei hepgor hefyd o safbwynt effaith ar y farchnad, am fod rhoi sylw i lysoedd yn ffurf ar newyddiaduraeth sy'n fwy deniadol yn fasnachol.